# Cronfa Addysg Plwyf Rudbaxton

Sefydliad Cymunedol Cymru

Nod Cronfa Addysg Plwyf Rudbaxton yw hyrwyddo addysg plant a phobl ifanc hyd at 25 mlwydd oed sy'n byw ym mhlwyf Rudbaxton, Sir Benfro. Mae grantiau i unigolion ar gael er mwyn:

- Talu costau myfyrwyr mewn addysg bellach/addysg uwch
- Cefnogi disgyblion ysgol gyda deunyddiau, cyfarpar a gweithgareddau/tripiau

Gall enghreifftiau gynnwys: bwrsariaethau prifysgolion, cyfarpar/deunyddiau ar gyfer cyrsiau addysg uwch, costau teithio i goleg, ffioedd cyrsiau (lle nad oes mathau eraill o gymorth ar gael, ee benthyciadau i fyfyrwyr.)

Mae grantiau i fudiadau ar gael er mwyn:

- Costau rhedeg prosiectau
- Mân-waith cyfalaf
- Prynu cyfarpar a deunyddiau
- Cyfrannu at gostau deunyddiau, tripiau a gwibdeithiau addysgol

Gall enghreifftiau gynnwys: menter ieuenctid yn y gymuned, rhaglen addysg gymunedol, clybiau gwyliau a gwibdeithiau addysgol.

## Grantiau ar gael

- Gall unigolion wneud cais am grantiau o hyd at £1,000 y flwyddyn am hyd at dair blynedd
- Gall sefydliadau wneud cais am grantiau o hyd at £2,000 y flwyddyn am hyd at dair blynedd.

## Pwy all wneud cais?

Unigolion o dan 25 oed sy'n byw ym Mhlwyf Rudabaxton. Grwpiau cymunedol/gwirfoddol ac elusennau lleol sydd naill ai wedi'u lleoli yn Rudabaxton neu y mae eu gwaith yn rhoi budd uniongyrchol i unigolion o dan 25 oed yn Rudabaxton. Gall ysgolion a Chymdeithasau Rhieni Athrawon wneud cais ond dim ond ar gyfer prosiectau sydd y tu allan i ddarpariaeth statudol

## Sut i wneud cais?

Rhaid i bob ymgeisydd gwblhau ffurflen gais sydd ar gael ar ein gwefan. Cofiwch:

- Ni roddir grantiau'n ôl-weithredol h.y. ar gyfer costau sydd eisoes wedi codi cyn derbyn ein llythyr yn cynnig grant a chyn llofnodi a dychwelyd yr amodau a thelerau
- Nid yw grantiau ar gael i gefnogi codi arian ar ran grwpiau ac elusennau eraill.
- Rhaid gwario'r grant yn llawn o fewn un flwyddyn o dderbyn ein llythyr o gynnig
- Rhaid i'r cais ddangos angen clir am gymorth ariannol, caledi ariannol neu anghenion cymorth ychwanegol

# Cyllid Blwyddyn Lluosog

Rydym yn cydnabod pa mor bwysig yw hi i grwpiau ac unigolion allu cynllunio ar gyfer y dyfodol a bod cael cyllid diogel yn gallu rhoi'r hyder a'r sicrwydd i chi ddatblygu eich prosiect dros y tymor hir. Mae Cronfa Addysg Plwyf Rudbaxton bellach yn cynnig cyfle i grwpiau ac unigolion wneud cais am gyllid aml-flwyddyn o hyd at dair blynedd ond bydd hefyd yn parhau i gynnig cyllid prosiect 1 flwyddyn neu eitem gyfalaf bach.

Rydym yn gobeithio gallu gwneud o leiaf un grant tair blynedd y flwyddyn. I gael eich ystyried am grant tair blynedd, cwblhewch adran ychwanegol y ffurflen gais sy'n nodi sut rydych yn bwriadu datblygu eich prosiect dros y cyfnod o gyllid y gwneir cais amdano. Bydd eich cais yn dal i gael ei ystyried am gyllid blwyddyn os nad ydych yn llwyddiannus gyda grant tair blynedd.

Rydym hefyd yn cydnabod yr her o ddod o hyd i gyllid craidd, yn enwedig yn y tymor hir. Gall grwpiau ymgeisio am gyllid tuag at gostau craidd am hyd at dair blynedd, ar yr amod y gall y grŵp ddarparu cyfrifon am o leiaf y 12 mis diwethaf ac mae'r swm y gwneir cais amdano yn llai na 50% o'ch trosiant blynyddol. Er enghraifft, i wneud cais am grant o £1,000 y flwyddyn, dylai eich incwm blynyddol fod o leiaf £2,000.

# Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015

Bwriad Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yw gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'n gofyn i sefydliadau yng Nghymru ystyried effeithiau tymor hir eu penderfyniadau, i weithio'n well gyda phobl a cymunedau a gyda'i gilydd a rhwystro problemau parhaus rhag codi, megis tlodi, anghydraddoldebau iechyd a newid hinsawdd.




Rydym yn awyddus i annog sefydliadau i feddwl nid yn unig am y gymuned ble maen nhw'n byw ac yn gweithio ynddi, ond hefyd sut mae'u gwaith yn gydnaws â ac yn cyd-fynd â gwasanaethau a gweithgareddau grwpiau a sefydliadau eraill, rhai gwirfoddol a rhai statudol.

Fe hoffen ni i chi ystyried sut y gallai'ch sefydliad weithio gydag eraill er mwyn ychwanegu gwerth a gweithio mewn partneriaeth yn hytrach na chystadlu. Cofiwch egluro yn eich cais eich cynlluniau ar gyfer y dyfodol yn ogystal ag ar gyfer y presennol. Fe hoffen ni weld sut mae grwpiau'n gweld effeithiau tymor hir eu penderfyniadau er mwyn gallu gweithio gyda, ar y cyd, ag eraill.